Ysgol Tryfan

Polisi:- **Ymddygiad amhriodol tuag at Staff Ysgol.**

Mae'r ysgol hon yn le trefnus, diogel, ble mae staff ac ymwelwyr, yn arbennig rhieni, yn dangos parch tuag at ei gilydd ac yn cydnabod cyd-gyfrifoldeb am les a chynnydd addysgol disgyblion.

Mae ymgyfraniad rhieni yn ffactor pwysig mewn llwyddiant addysgol ac mewn delio â phroblemau sy'n datblygu, yn gynnar.

Fel arfer, bydd rhiant plentyn sy'n mynychu'r ysgol hon wedi cael caniatâd i fod ar dir yr ysgol ar adegau penodol ac at ddibenion penodol ond os yw'r rhiant yn ymddwyn yn afresymol, gellir dileu'r caniatâd hwn a byddant o ganlyniad, yn tresmasu.

Mae tresmasu ac achosi niwsans neu aflonyddu ar dir ysgol yn drosedd o dan adran 547 o Ddeddf Addysg 1996.

Ni chaiff trais, ymddygiad bygythiol a sarhau staff ysgol neu aelodau eraill o gymuned yr ysgol hon ei oddef. Mae gan bob aelod o gymuned yr ysgol hawl i ddisgwyl bod eu hysgol yn fan diogel i weithio a dysgu ynddi. Nid oes lle i drais, ymddygiad bygythiol na sarhau yn yr ysgol hon.

Ble ceir ymddygiad o'r fath, mae'n ddyletswydd ar yr ysgol hysbysu Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd o ddigwyddiadau a fydd, yn eu tro, yn cynghori'r ysgol ynghylch pob cam posibl y gellir eu cymryd i ddelio a'r ymddygiad, gan gwrdd â dymuniadau'r ysgol a'r ddeddfwriaeth a weithredir.

Mae'r ysgol hon wedi paratoi asesiad ar y risg i staff ac eraill o ganlyniad i sarhad neu drais gan ymwelwyr, a'r asesiad hwnnw'n unol â'r canllaw ar wefan yr HSE (www.hse.gov.uk/pubns/raindex.htm) a'r diwyg safonol a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Ysgolion. Mae'r rhain yn nodi ac yn asesu'r peryglon posibl, yn pennu gweithredoedd priodol ar gyfer eu rheoli, gweithredu'r mesurau hynny ac yn monitro ac yn rhoi adborth i'r corff llywodraethol ar sut caiff yr asesiad ei weithredu.

Mewn achosion ble caiff staff neu aelodau eraill o gymuned yr ysgol eu sarhau neu eu bygwth yn agored gan aelodau o'r cyhoedd neu rieni tra maent ar dir yr ysgol, dilynir y gweithdrefnau canlynol:-

-Os ceir digwyddiad, gofynnir i'r sawl sy'n gyfrifol adael neu, os yw hynny'n briodol, ei wahodd i fan tawel am drafodaeth gydag o leiaf ddau aelod o'r staff yn bresennol, ac un ohonynt y pennaeth. Ni ddisgwylir i aelodau'r staff atal unigolyn yn gorfforol. Dylent sicrhau eu diogelwch personol a diogelwch aelodau eraill sy'n rhan o gymuned yr ysgol, bob amser.

-Os ystyrir bod hynny'n briodol, dylai'r aelod o'r staff sy'n cael ei fygwth yn uniongyrchol o ganlyniad i'r ymddygiad bygythiol, gysylltu ag awdurdod yr heddlu;

-Bydd pob digwyddiad yn cael ei gofnodi (Atodiad 1) a bydd adroddiad yn cael ei anfon at Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r Gwasanaeth Ysgolion a fydd yn sail i'r ysgol ac/neu'r Awdurdod gymryd camau pellach os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol;

Ar wahân i'r camau cyfreithiol, ceir strategaethau a gweithdrefnau eraill a all gynorthwyo wrth ddelio gyda chwynion, atal gwrthdaro gyda rhieni neu atal gwrthdaro rhag gwaethygu. Buasai'n ddisgwyliedig gan gorff llywodraethol a'r Gwasanaeth Ysgolion y gellir cael gafael ar dystiolaeth o bob camau o'r fath os gofynnir amdano.

Mabwysiadwyd: 10/3/15

Cadeirydd:- Bryn Tomos

10/3/15